

## Katharine Young

Canolfan Ymchwil Iaith a Chyfathrebu, ENCAP ac Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

### Cyd-destun

Mae cymhwysedd sosioieithyddol—sef gallu siaradwyr i amrywio eu hiaith i siarad mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol—yn rhan bwysig o ddatblygu hyfedredd brodorol yn yr iaith darged (Hansen-Edwards, 2011: 1258). Dengys astudiaethau o'r Ffrangeg (Mougeon et al, 2010) nad yw myfyrwyr mewn addysg drochi yng Nghanada yn dod ar draws ffurfiau mwy anffurfiol yn yr ysgol, oherwydd natur ffurfiol iaith y dosbarth.

Mae cyfrifoldeb ar athrawon i sicrhau bod myfyrwyr yn caffael amrywio rhugl neu frodorol yn dilyn targedau diweddar Llywodraeth Cymru (2017) o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Disgwylir i athrawon Cymraeg, sy'n dysgu'r iaith fel iaith gyntaf (W1L) ac fel ail iaith (W2L), addysgu amrywiadau o'r Gymraeg sy'n addas mewn nifer o gyweiriau gwahanol (WJEC, 2015; WJEC, 2017) sy'n cydymffurfio ag arferion ieithyddol y byd academaidd, byd gwaith ac arferion cymunedol anffurfiol, hynny yw, gwella cymhwysedd sosioieithyddol eu myfyrwyr.

Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil sy'n bodoli ar amrywio sosioieithyddol mewn dosbarthiadau Cymraeg yng Nghymru. Archwiliodd y prosiect hwn i ganfyddiadau athrawon o nodweddion ieithyddol sy'n amrywio o un cywair i'r llall a sut y'u defnyddir yn y dosbarth

### Nodau'r ymchwil

Nod yr ymchwil oedd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

**CY1** Pa fath o amrywio ieithyddol sy'n digwydd mewn dosbarthiadau Cymraeg yn ôl athrawon?

**CY2** Beth yw agweddau'r athrawon tuag at amrywio arddulliol tra anffurfiol yn eu dosbarthiadau?

**CY3** I ba raddau mae'r math o Gymraeg a addysgir (W1L, W2L neu W1L+W2L) yn effeithio ar ffurfioldeb ac agweddau athrawon tuag at amrywio arddulliol yn y dosbarth?

### Cynllun

Casglwyd data gan athrawon sy'n addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (W1L) ac ail iaith (W2L) yng Nghymru ar ffurf holiadur. Cafwyd 98 o ymatebion i'r holiadur ar-lein. Gofynnwyd i'r ymatebwyr adrodd ar y math o amrywio ieithyddol a welir yn iaith athrawon a disgyblion gan ganolbwyntio ar nodweddion sy'n amrywio rhwng cyweiriau yn y Gymraeg (ffurfiol ac anffurfiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig). Datblygwyd fframwaith er mwyn cynnal dadansoddiad meintiol o ffurfioldeb ac agweddau'r athrawon tuag at amrywio arddulliol y nodweddion canlynol:

- Rhagenwau meddiannol (fy nghar/car fi)
- Berf ategol 'bod' (Rwyf/Rydw i/Dw i/Fi etc)
- Ôl-ddodiaid lluosog (pethau/petha/pethe)
- Ansoddeiriau dangosol (hwn/yma)
- Amrywio 'yw' (yw/ydy/ydi)
- Ynganu (f) ar ddiwedd geiriau (nesaf/nesa')
- Strwythurau meddiannol (mae gen i/fi gyda etc.)
- Berfau ymadroddol (tyfu i fyny, ysgrifennu i lawr, troi i ffwrdd)
- Gor-gyffredinolli 'cael' (fi'n cael brawd)
- Ansoddeiriau lluosog (rhosod coch)
- Ffurfiâu 'ie' (Wyt ti'n mwynhau...? Ie.)

Sgoriwyd amrywiolion pob nodwedd yn ôl ffurfioldeb (yn seiliedig ar y llenyddiaeth) ac fe roddwyd sgôr ffurfioldeb cyfartalog i'r athrawon ac i'r disgyblion fesul pob nodwedd a chywair. Cynrychiola'r sgorau uwch ddefnydd o amrywiolion mwy ffurfiol, tra bod sgorau is yn cynrychioli ddefnydd o'r amrywiolion anffurfiol (mwyaf ffurfiol=5, niwt-ral=3, mwyaf anffurfiol=1). Mesurwyd agweddau athrawon tuag at amrywiolion pob nodwedd gan ddefnyddio graddfa Likert yn seiliedig ar ba mor debygol y byddai'r athrawon o gywiro nodweddion ym mhob cywair. Yn yr achos hwn, cynrychiola'r sgorau isel ddiffyg goddefgarwch ymhlith athrawon tuag at y nodweddion ansafonol, tra bod sgorau uwch yn dangos bod yr amrywiolion yn fwy tebygol o gael eu goddef. Yn ogystal â'r data meintiol, casglwyd data ansoddol yn yr holiadur ar agweddau'r athrawon tuag at amrywio a'u dadansodwyd i gefnogi'r canfyddiadau meintiol.

**Canfyddiadau (1)**

Ar y cyfan, canfuwyd cydberthynas gref ( $r_s = 0.802$ ) rhwng ffurfioldeb athrawon a myfyrwyr, er adroddwyd bod athrawon 6.4% yn fwy ffurfiol. Nodwyd tri math o amrywio yn y data a gasglwyd gan yr athrawon; a) gwahaniaethau rhwng iaith dosbarth ac iaith y tu allan i'r dosbarth, b) gwahaniaethau rhwng iaith lafar ac ysgrifenedig, c) dim gwahaniaethau clir rhwng cyd-destunau.

**A) Yn y dosbarth vs y tu allan i'r dosbarth**

⇒ **Rhagenwau meddiannol (fy nghar/car fi)**

	Siarad yn y dosbarth	Ysgrifennu	Siarad y tu allan i'r dosbarth	Sgôr ffurfioldeb
Athrawon	4	4.15	3.73	<b>3.93</b>
Myfyrwyr	2.52	2.81	2.14	<b>2.50</b>

- Darganfuwyd bod gwahaniaeth arwyddocaol ( $p < 0.001$ ) rhwng defnydd yr athrawon o'r amrywiolion rhwng cyd-destunau (yn ôl hunan adrodd). Nid oedd y gwahaniaeth honedig rhwng disgyblion yn arwyddocaol ( $p = 0.355$ ).
- Gwelir gwahaniaethau clir rhwng cyd-destun yn y dosbarth (siarad yn y dosbarth ac ysgrifennu) a'r tu allan.
- Canfuwyd bod sgôr ffurfioldeb (yn ôl athrawon) yn uwch na'u myfyrwyr yn arwyddocaol ( $p < 0.001$ ), gan ddangos bod athrawon yn ystyried eu bod yn defnyddio amrywiolion mwy ffurfiol na'u myfyrwyr.

**B) Siarad vs ysgrifennu**

⇒ **Berf ategol 'bod' (Rwyf/Rydw i/Dw i/Fi ayyb)**

	Siarad yn y dosbarth	Ysgrifennu	Siarad y tu allan i'r dosbarth	Sgôr ffurfioldeb
Athrawon	2.10	3.33	1.71	<b>2.40</b>
Myfyrwyr	1.71	2.69	1.74	<b>2.04</b>

- Nododd athrawon eu bod nhw a'u disgyblion yn defnyddio amrywiolion gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol. Roedd y gwahaniaeth rhwng cyd-destunau yn arwyddocaol ymhlith athrawon ( $p < 0.001$ ) a disgyblion ( $p < 0.001$ ) gyda gwahaniaethau clir rhwng sgôr gyfartalog cyweiriau siarad ac ysgrifennu.
- ⇒ Er gwaethaf yr amrywio arddulliadol uchod, darganfuwyd bod athrawon yn fwy tebygol o ddefnyddio amrywiolion ffurfiol na'u disgyblion.

⇒ **Ôl-ddodiaid lluosog (pethau/petha/pethe)**

	Siarad yn y dosbarth	Ysgrifennu	Siarad y tu allan i'r dosbarth	Sgôr ffurfioldeb
Athrawon	2	2.93	1.53	<b>2.16</b>
Myfyrwyr	2.19	2.73	2.16	<b>2.37</b>

- Roedd y gwahaniaeth rhwng cyd-destunau yn arwyddocaol ar gyfer y nodwedd ôl-ddodiad lluosog ymhlith athrawon ( $p < 0.001$ ) a disgyblion ( $p < 0.001$ ) gyda gwahaniaethau clir rhwng sgôr gyfartalog cyweiriau siarad ac ysgrifennu.
- Yn wahanol i'r nodweddion eraill a ddadansoddwyd, yn ôl athrawon mae myfyrwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r ôl-ddodiad lluosog fwy ffurfiol -au, gyda gwahaniaethau arwyddocaol ( $p = 0.009$ ) rhwng sgôr gyfartalog mwy anffurfiol athrawon a sgôr mwy ffurfiol myfyrwyr.

⇒ **Ynganu (f) ar ddiwedd geiriau (nesaf/nesa')**

	Siarad yn y dosbarth	Ysgrifennu	Siarad y tu allan i'r dosbarth	Sgôr ffurfioldeb
Athrawon	3.51	4.80	3.23	<b>3.85</b>
Myfyrwyr	3.76	4.44	3.70	<b>3.99</b>

- Roedd y gwahaniaeth rhwng defnydd athrawon a myfyrwyr o (f) yn arwyddocaol rhwng cyd-destunau (athrawon  $p < 0.001$ , myfyrwyr  $p < 0.001$ ) gyda gwahaniaeth clir rhwng cyweiriau siarad ac ysgrifennu.
- Honna athrawon fod myfyrwyr yn fwy tueddol o ddefnyddio'r amrywiolion ffurfiol mewn cyd-destunau anffurfiol.
- Ar y cyfan nid oedd sgorau ffurfioldeb athrawon a myfyrwyr yn wahanol yn arwyddocaol ( $p = 0.152$ ).

⇒ **Strwythurau meddiannol (mae gen i/fi gyda ayyb)**

	Siarad yn y dosbarth	Ysgrifennu	Siarad y tu allan i'r dosbarth	Sgôr ffurfioldeb
Athrawon	2.81	3.42	2.43	<b>2.89</b>
Myfyrwyr	2.47	2.84	2.40	<b>2.59</b>

- Roedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol rhwng cyd-destunau (athrawon  $p < 0.001$ , myfyrwyr  $p = 0.007$ ) yn eu defnydd o'r strwythurau meddiannol (mae gennyf, mae gen i/gyda fi, mae 'da fi, fi gyda) ac roedd gwahaniaeth clir rhwng sgôr gyfartalog ysgrifennu a sgôr gyfartalog siarad.
- Canfuwyd bod gwahaniaeth arwyddocaol ( $p < 0.001$ ) rhwng sgorau ffurfioldeb athrawon a'u myfyrwyr, yn ôl yr athrawon.

**C) Dim gwahaniaethau clir rhwng y cyd-destunau**

- Yn ôl honiadau'r athrawon, nid yw ansoddeiriau dangosol na ffurfiau 'yw' yn amrywio yn arwyddocaol rhwng cyd-destunau dosbarthiadau Cymraeg (gweler y tabl isod).
- Ni welwyd arwyddocâd ystadegol rhwng ffurfioldeb honedig athrawon a myfyrwyr (ansoddeiriau dangosol  $p = 0.136$ , amrywio 'yw'  $p = 0.168$ ).

⇒ **Ansoddeiriau dangosol (hwn/yma)**

Dim amrywio arwyddocaol yn ôl cyd-destun	Ffurfioldeb cyfartalog
Athrawon $p = 0.025$	<b>3.65</b>
Myfyrwyr $p = 0.920$	<b>3.26</b>

⇒ **Amrywio 'yw' (yw/ydy/ydi)**

Dim amrywio arwyddocaol yn ôl cyd-destun	Ffurfioldeb cyfartalog
Athrawon $p = 0.608$	<b>1.66</b>
Myfyrwyr $p = 0.487$	<b>1.56</b>


**Canfyddiadau (2)**

Archwiliwyd hefyd i agweddau athrawon tuag at amrywio gan ddefnyddio cwestiynau graddfa Likert a phenagored i bennu sgôr goddefgarwch yr athrawon (allan o 5, goddefgarwch cryf) ar gyfer y nodweddion canlynol:

	Siarad anffurfiol yn y dosbarth	Cyflwyniad llafar	Gwaith cartref ysgrifenedig	Gwaith cwrs ysgrifenedig	Cyfartaledd goddefgarwch
Gor-gyffredinol 'cael'	1.45	1.22	1.16	1.16	1.25
Ffurfiâu 'ie'	2	1.48	1.44	1.37	1.57
Rhagenwau meddiannol	2.37	1.47	1.44	1.32	1.65
Berfau ymadroddol	2.83	2.69	2.48	2.44	2.56
Ansoddeiriau dangosol	3.73	3.38	3.12	3.02	3.31


⇒ **Gor-gyffredinol 'cael' (fi'n cael brawd)**

- Y nodwedd hon oedd wedi denu'r stigma mwyaf, a nododd athrawon eu bod yn debygol iawn o'i chywiro (sgôr goddefgarwch = 1.25).
- Profodd brawf tebygolrwydd union Fisher wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ( $p < 0.001$ ) rhwng goddefgarwch athrawon am y nodwedd ar draws cyd-destunau. Hynny yw, roeddent yn fwy tebygol o gywiro'r nodwedd wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy ffurfiol.




⇒ **Ffurfiâu 'ie' (Wyt ti'n mwynhau...ie)**

- Nodwyd bod defnyddio 'ie' fel ymateb i gwestiynau - yn hytrach na'r amrywiolyn mwy addas yn gystrawennol—yn debygol o gael ei gywiro (sgôr goddefgarwch = 1.57).
- Profodd brawf tebygolrwydd union Fisher wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ( $p = 0.0015$ ) o ran agwedd yn ôl cyd-destun. Hynny yw, roeddent yn fwy tebygol o gywiro'r nodwedd wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy ffurfiol.




⇒ **Rhagenwau meddiannol (Mam fi)**

- (Cyfartaledd goddefgarwch y nodwedd = 1.65)
- Canfuwyd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng cyd-destunau ( $p < 0.001$ ) drwy ddefnyddio prawf tebygolrwydd union Fisher, gan ddangos eto bod athrawon yn disgwyl i'w myfyrrwyr gydfurfio gyda safonau arddulliadol.




⇒ **Berfau ymadroddol (ysgrifennu i lawr/troi i ffwrdd/tyfu i fyny)**

- Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ( $p = 0.006$ ;  $p = 0.004$ ) yn ôl cyd-destun yn achos *Ysgrifennu i lawr* (sgôr goddefgarwch= 1.97) a *troi i ffwrdd* (sgôr goddefgarwch= 2.60), a goddefgarwch yn lleihau wrth i'r cyd-destun ddod yn fwy ffurfiol.
- Ar y llaw arall, gwelwyd goddefgarwch llawer uwch i *tyfu i fyny* (sgôr goddefgarwch= 3.11) ar draws y cyd-destunau. Ni chanfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol mewn goddefgarwch yn ôl cyd-destun ( $p = 0.100$ ) (gweler isod).




⇒ **Ansoddeiriau lluosog (rhosod coch/rhosod cochion)**

- Nid oedd athrawon yn cysylltu stigma i beidio â lluosio ansoddeiriau (sgôr goddefgarwch= 3.31).
- Yn debyg i batrymau blaenorol, daw'r nodwedd *rhosod coch* (ansoddair heb ei luosogi) yn llai derbyniol wrth i'r cyd-destun ddod yn fwy ffurfiol ( $p = 0.004$ ) yn ôl athrawon.




### Canfyddiadau (3)

- Roedd sgorau ffurfioldeb athrawon yn amrywio yn arwyddocaol yn ystadegol rhwng athrawon W1L, W2L ac athrawon sy'n dysgu'r ddau (W1L+W2L) ( $p < 0.001$ ).



- Nodwyd bod athrawon W1L yn defnyddio'r iaith fwyaf ffurfiol, ac athrawon W1L+W2L ar gyfartaledd yn adrodd lefelau tebyg (er ychydig yn is ar gyfartaledd).
- Ni chanfuwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn nhebygolrwydd athrawon i gywiro'r nodweddion a ystyriwyd yn ansafonol yn seiliedig ar y math o Gymraeg a addysgir (W1L neu W2L) ( $p = 0.071$ ).
- Roedd athrawon W2L yn goddef nodweddion wedi eu stigmateiddio er enghraifft gor-gyffredinoli *cael* a ffurfiau 'ie'.



- Fodd bynnag, goddefwyd y ferf ymadroddol *tyfu i fyny* i'r un raddau gan athrawon W1L a W2L (gweler sgorau goddefgarwch yn y tabl isod), yn rhannol am nad oedd athrawon yn ei chysylltu â chyfieithiad uniongyrchol o'r Saesneg.
- Diddorol oedd nodi bod athrawon W1L yn fwy tebygol o oddef ansoddeiriau lluosog nag athrawon W2L.

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Adroddwyd bod athrawon yn fwy ffurfiol eu Gymraeg na'u myfyrwyr ym mhob nodwedd ac eithrio dwy. Yn ôl athrawon, mae myfyrwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio amrywiolion mwy ffurfiol o'r ôl-ddodiad lluosog ac ynganu (f) ar ddiwedd geiriau (*pethau* yn hytrach na *petha* neu *pethe*, a *nesaf* yn hytrach na *nesa*).
- Ar y cyfan, yn ôl yr athrawon, y cyd-destun ysgrifennu a oedd yn ennyn yr iaith fwyaf ffurfiol, ac iaith y tu allan i'r dosbarth a oedd yn ennyn yr iaith fwyaf anffurfiol.
- Yn ôl yr astudiaeth, caiff amrywiolion yr ansoddeiriau dangosol (*hwn*, *hon* a *hyn* vs *yma* ac *yna*) eu defnyddio yn gyfnewidiol rhwng cyd-destunau, yn wahanol i'r llenyddiaeth sy'n honni eu bod yn perthyn i gyweiriau tra gwahanol (Morris Jones, 1993: 75). Nid oedd ffurfiau 'yw' yn amrywio yn ôl cyd-destun ychwaith, o bosibl oherwydd gwahaniaethau tafodieithol (*yw* vs *ydy*).
- Gwelwyd cydberthynas gref ( $r_s = 0.802$ ) rhwng amrywio myfyrwyr ac athrawon dros y cyd-destunau gwahanol.
- Cadarnhawyd y caiff nodweddion tra anffurfiol eu cywiro yn gynyddol wrth i gywair y cyd-destun ddod yn fwy ffurfiol, gan ddangos bod athrawon yn disgwyl i allu sosioieithyddol eu myfyrwyr ddatblygu.
- Gor-gyffredinoli *cael* oedd y nodwedd â'r stigma mwyaf yn gysylltiedig iddi yn ôl athrawon, er ei bod yn nodwedd amlwg yn lleferydd pobl ifanc ers dros ugain o flynyddoedd (Jones, 1998).
- Ni chysylltir stigma ag ansoddeiriau sydd heb eu lluosgi (rhodod *coch* yn hytrach na rhodod *cochion*); derbynir hwy fel norm ymhlith athrawon.
- Nid ystyriwyd y ferf ymadroddol *tyfu i fyny* yn effeithiol o ran nodi cymhwysedd sosioieithyddol; doedd dim disgwyl i fyfyrwyr amrywio eu defnydd o'r nodwedd yn unol â'r cyd-destun.
- Nodwyd bod athrawon W1L yn defnyddio iaith fwy ffurfiol nag athrawon W2L.
- Roedd athrawon W1L, W2L a W1L+W2L yn honni eu bod yn debygol o oddef y nodweddion hynny sydd â'r fwyaf o stigma yn perthyn iddynt i'r un raddau.

Math a addysgir	Gor-gyffredinoli <i>cael</i>	Ffurfiau <i>ie</i>	Rhagenw meddiannol	Ysgrifennu i <i>lawr</i>	Troi i <i>ffwrdd</i>	Tyfu i <i>fyny</i>	Ansoddeiriau lluosog	Cyfartaledd goddefgarwch
W1L+W2L	1.25	1.35	1.85	1.82	2.48	2.65	2.91	<b>2.05</b>
W1L	1.15	1.41	1.44	2.39	2.58	3.21	3.44	<b>2.23</b>
W2L	1.36	1.86	1.77	2.44	2.67	3.22	3.37	<b>2.39</b>
	<b>1.25</b>	<b>1.58</b>	<b>1.65</b>	<b>2.29</b>	<b>2.60</b>	<b>3.11</b>	<b>3.31</b>	<b>2.26</b>

## Arwyddocâd a Goblygiadau

- Dyma'r gwaith cyntaf o'i fath i ymchwilio i amrywio ieithyddol mewn dosbarthiadau Cymraeg.
- Mae'n gwella ein dealltwriaeth o gymhwysedd sosioieithyddol (sy'n awgrymu meistrolaeth lawn o iaith) mewn ysgolion, yn dilyn targed i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Teimlid bod athrawon a'u myfyrwyr yn amrywio eu hiaith (i raddau gwahanol) i weddu cyweiriau penodol; awgrymir felly eu bod yn meddu ar gymhwysedd sosioieithyddol.
- Data a adroddwyd gan athrawon yw sail yr ymchwil hwn, felly pwysig yw nodi nad yw'n cynrychioli'r amrywio ieithyddol 'go iawn' a allai fodoli yn y dosbarth. Deillir gwaith PhD cyfredol ohono, a fydd yn edrych ar iaith go iawn myfyrwyr, drwy gasglu lleferydd naturiol mewn nifer o gyweiriau gwahanol.
- Dengys ganlyniadau cychwynnol fod y dosbarth W1L yn gymharol ffurfiol. Mae gwaith ar addysg drochi yng Nghanaada (Mougeon et al. 2010) wedi dangos bod ffurfioldeb iaith addysg yn rhwystr i fyfyrwyr sy'n ceisio caffael amrywiolion mwy anffurfiol. Gallai gwaith pellach archwilio i hyn yng nghyd-destun y Gymraeg.
- Mae angen gwaith pellach i wella ein dealltwriaeth o'r amrywio a welir mewn dosbarthiadau W1L (nad archwiliwyd yn fanwl yn yr ymchwil hwn), i archwilio i effaith defnydd cymunedol o'r Gymraeg ar amrywio ieithyddol.
- Er y gwelwyd cydberthynas rhwng amrywio sosioieithyddol athrawon a'u myfyrwyr, mewn gwaith pellach gellid edrych ar ffactorau allanol eraill a allai effeithio ar gaffael sosioieithyddol y myfyrwyr (iaith yr aelwyd, rhwydweithiau cymdeithasol ayyb).

## Cyfeiriadau

Hansen Edwards, J. 2011. Deletion of /t, d/ and the Acquisition of Linguistic Variation by Second Language Learners of English. *Language Learning*, 61(4), pp. 1256-1301.

Mougeon, R., Nadasdi, T. & Rehner, K. 2010. *The Sociolinguistic Competence of Immersion Students*. Salisbury: MPG Books Group.

Welsh Government. 2017. *Cymraeg 2050, A Million Welsh Speakers*. Cardiff: Welsh Government.

Welsh Joint Education Committee. 2015. *WJEC GCSE in Welsh First Language: Specification*. Available at: <https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-first-language/r-welsh-language-gcse/>

Welsh Joint Education Committee. 2017. *WJEC GCSE in Welsh Second Language: Specification*. Available at: <https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-second-language/r-welsh-second-language-gcse-2017/>

## Diolchiadau

Diolch yn fawr i'r athrawon a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Diolch hefyd i oruchwylwyr y project Dr Mercedes Durham a Dr Jonathan Morris am eu cefnogaeth wrth fynd i'r afael â'r gwaith. Cydnabyddir hefyd gefnogaeth gan yr ESRC a Llywodraeth Cymru.